**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2016**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorwyr Hugh Irving a David Smith. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | CYNLLUN COMISIYNU LLEOL CEFNOGI POBL SIR DDINBYCH 2017-18 | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl Lleol ar gyfer 2017 – 2018 cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Ionawr 2017.* |
| **6** | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 2 – 2016/17 | ***PENDERFYNWYD** -*<br><br>*(a) bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad;*<br><br>*(b) gwahodd cynrychiolwyr perthnasol y darparwyr band eang cyflym iawn i'r pwyllgor craffu perthnasol i ateb cwestiynau ac ymateb i bryderon yr aelodau o ran y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn yn Sir Ddinbych, ac*<br><br>*(c) anfon llythyr agored at Weinidogion Cymru yn nodi pryderon y Cabinet ynghylch cynnydd y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn yn Sir Ddinbych.* |
| **7** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*<br><br>*(b) cymeradwyo bod tanwariant blwyddyn gyfredol a blwyddyn flaenorol y gwasanaeth* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2016**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *TGCh yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Ddatblygu Rhwydweithiau TG i ariannu'r prosiectau moderneiddio penodol a ddisgrifir yn Adran 6 o'r adroddiad a bod y Cabinet hefyd yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gyflwyno,*<br><br>*(c) cymeradwyo dileu balansau mân ddyledwyr, sy'n dod i £37,599, mewn perthynas â Clwyd Leisure Ltd sydd eisoes wedi'i ddarparu'n llawn.* |
| **8** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |